OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1171 (Cy.104)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
AMDDIFFYN OEDOLION HYGLWYF, CYMRU

Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 31 Mawrth 2010

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 23(1), 56(1)(f) a 61(5) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Chwefror 2010 yn unol ag adran 61(3) o'r Ddeddf honno (fel y'i haddaswyd gan adran 56(5)(b) o'r Ddeddf honno) a chymeradwywyd ef gan benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y'u gwneir.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Yr amgylchiadau pan na chaiff person cyfrifol ganiatáu i rywun arall ymgymryd â gweithgarwch rheoledig yng Nghymru mewn perthynas â phlant

2.—(1) Ni chaiff person cyfrifol(**2**) ("PC") ganiatáu i rywun arall ("A") ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant(**3**) ac eithrio yn yr amgylchiadau a bennir ym mharagraff (2) neu'r amgylchiadau a bennir ym mharagraff (3).

(2) Yr amgylchiadau yn y paragraff hwn yw—

(a) bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dyroddi i A, o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**4**) naill ai—

(**1**) 2006 p. 47.

(**2**) Mae i "person cyfrifol" yr ystyr a roddir i "responsible person" gan adran 23(3) o Ddeddf Amddiffyn Grwpiau Hyglwyf 2006 ("y Ddeddf").

(**3**) Mae i "gweithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant" yr ystyr a roddir i "controlled activity relating to children" gan adran 21 o'r Ddeddf.

(**4**) 1997 p. 50. Mewnosodwyd adran 113B gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (p. 15) a diwygiwyd hi gan adran 63(1) o'r Ddeddf a pharagraff 14(3) o Ran 2 o Atodlen 9 i'r Ddeddf, gan adran 378(1) o Ddeddf y

(i) tystysgrif cofnod troseddol fanylach sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd mewn perthynas â phlant (yn yr ystyr a roddir i "suitability information relating to children" yn adran 113BA(**5**) o'r Ddeddf honno), neu

(ii) hysbysiad i'r perwyl nad yw A—

(aa) wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant(**6**),

(bb) wedi ei gynnwys yn y rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(**7**), ac

(cc) nad yw'n destun cyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002(**8**);

(b) bod y dystysgrif wedi ei dyroddi neu'r hysbysiad wedi ei ddyroddi o fewn y cyfnod o 90 diwrnod sy'n diweddu ar y dyddiad y mae PC yn caniatáu i A ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant; ac

(c) bod PC wedi cael copi o'r dystysgrif honno neu'r hysbysiad hwnnw, cyn caniatáu i A ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant.

(3) Yr amgylchiadau yn y paragraff hwn yw fod PC, cyn caniatáu i A ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant, wedi ei fodloni nad yw A—

(a) wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant (**9**),

(b) wedi ei gynnwys yn y rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, ac

(c) nad yw'n destun cyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfnod di-dor pan fo PC yn caniatáu i A ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant—

(a) os rhoddwyd y caniatâd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, a

(b) os yw'r caniatâd yn parhau i gael effaith wedi i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Yr amgylchiadau pan na chaiff person cyfrifol ganiatáu i rywun arall ymgymryd â gweithgarwch rheoledig yng Nghymru mewn perthynas ag oedolion hyglwyf

3.—(1) Ni chaiff person cyfrifol ("PC") ganiatáu i rywun arall ("A") ymgymryd â gweithgarwch rheoledig mewn perthynas ag oedolion hyglwyf(**10**) ac eithrio yn yr amgylchiadau a bennir ym mharagraff (2) neu'r amgylchiadau a bennir ym mharagraff (3).

(2) Yr amgylchiadau yn y paragraff hwn yw—

(a) bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dyroddi i A, o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997—

Lluoedd Arfog 2006 (p. 52) a pharagraff 149 o Atodlen 16 i'r Ddeddf honno, ac erthyglau 2 a 4 o Orchymyn Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Cyfathrebiadau Electronig) 2009, O.S. 2009/203.

(**5**) Mewnosodwyd adran 113BA gan adran 63(1) o'r Ddeddf a pharagraff 14(1) a (4) o Ran 2 o Atodlen 9 i'r Ddeddf, a diwygiwyd hi gan adran 170(2) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40) (o ran Cymru; nid oedd y diwygiad mewn grym o ran Lloegr pan wnaed y Rheoliadau hyn). Mae adran 169 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25) a pharagraff 12 o Ran 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno hefyd yn diwygio adran 113BA, ond nid oeddent mewn grym pan wnaed y Rheoliadau hyn.

(**6**) Mae adran 3(2) o'r Ddeddf yn pennu o dan ba amgylchiadau y caiff person ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant.

(**7**) 1999 p. 14. Diwygiwyd adran 1 gan adrannau 95 i 98 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14) a diddymwyd hi gan adran 63 o'r Ddeddf a pharagraff 8(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 9 i'r Ddeddf ac Atodlen 10 i'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol ac arbedion yn erthygl 5 o Orchymyn Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2009, O.S. 2009/2611 ("yr GRh6DTA").

(**8**) 2002 p. 32. Diddymwyd adran 142 gan adran 63 o'r Ddeddf ac Atodlen 10 i'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol ac arbedion yn erthygl 7 o'r GRh6DTA.

(**9**) Mae adran 3(2) o'r Ddeddf yn pennu o dan ba amgylchiadau y caiff person ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant.

(**10**) Mae i "gweithgarwch rheoledig mewn perthynas ag oedolion hyglwyf" yr ystyr a roddir i "controlled activity relating to vulnerable adults" gan adran 22 o'r Ddeddf.